# Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal

## EOC(3)-15-08 (p3): 20 Tachwedd 2008

#### Polisi Gwybodaeth Hygyrch Comisiwn y Cynulliad

#### Pwrpas

Yn ei gyfarfod ar 2 Gorffennaf 2008, gwahoddwyd y Pwyllgor i roi sylwadau ar Bolisi Gwybodaeth Hygyrch drafft Comisiwn y Cynulliad. Ers hynny, mae'r adran Cysylltiadau Allanol wedi bod yn llunio Strategaeth Ymgysylltu sy'n cynnwys yr holl ddulliau cyfathrebu (gwefan, cyhoeddiadau, deunyddiau cyhoeddusrwydd) a chaiff ein ffordd o ddarparu gwybodaeth hygyrch ei hymgorffori yn y gwaith hwn. Gwahoddir y pwyllgor i roi sylwadau ar y ffordd rydym yn bwriadu bwrw ymlaen â'r gwaith hwn.

#### Cefndir

Cyflwynir amlinelliad drafft o'r modd y byddwn yn mynd ati i weithredu'r Strategaeth Ymgysylltu i'w ystyried yng nghyfarfod y Pwyllgor

#### Cyfle Cyfartal.

#### Crynodeb / Argymhellion

Gwahoddir y pwyllgor i nodi ein bwriad, y polisi drafft a'r pecyn cymorth a chynnig unrhyw awgrymiadau y byddai'n bosibl i ni eu hystyried wrth fwrw ymlaen â'r gwaith hwn.